Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# SWYDDOG CYMORTH AMGYLCHEDDOL

**Pencadlys GTAGC, Llanelwy**
**Cyfnod Penodol Cytundeb 18 mis**
**37 awr yr wythnos**
**Gradd 05 NWFRS £29,064 to £31,022 y flwyddyn**

Ar ôl mabwysiadu cynlluniau datgarboneiddio fflyd, gwresogi a phŵer gan yr Awdurdod Tân ac Achub, gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd uchod.

Mae'r rôl hon yn cynnwys cefnogi'r Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd wrth gyflwyno rhaglenni amgylcheddol a mentrau cydymffurfio, gan gynnwys gweinyddu'r System Rheoli Amgylcheddol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at gydlynu prosiectau, yn y swyddfa ac ar y safle wrth gysylltu â thimau mewnol a rhanddeiliaid allanol.

Mae cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys casglu a dadansoddi data amgylcheddol, cefnogi cyfrifyddu carbon, cynnal y System Rheoli Amgylcheddol, a chynorthwyo gyda chynllunio a monitro prosiectau amgylcheddol. Mae'r rôl hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys mynychu cyfarfodydd perthnasol ac ymweliadau safle ar draws ardal y Gwasanaeth.

Ariennir y swydd hon am 18 mis. Yn amodol ar argaeledd cyllid yn y dyfodol ac angen sefydliadol, efallai y bydd cyfleoedd i ymestyn neu wneud y rôl yn barhaol, ond ni ellir gwarantu hyn.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y disgrifiad swydd a'r fanyleb person. Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r swydd wag hon, cysylltwch â Tim Christensen ar 07342716655.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich ffurflen gais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00, 22/10/2025**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall

Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.